### *Ysgol Dungki Inding*

Diolch i'n Gweinidog, a lwyddodd i gysylltu â'r Parchedig Riewphonia Mawblei tra oedd yn India yn ddiweddar, cafwyd y newydd da fod yr ysgol yn ffynnu ac yn dal o dan ofal y Synod.

Nid oes angen cymorth ariannol bellach, ond mae Riew yn diolch am bob rhodd a dderbyniwyd yn y gorffennol ac yn gyrru atom ei ddymuniadau gorau.

O.N. Gan fod arian yn weddill yng nghronfa Dungki Ingding, awgrymwyd ein bod yn anfon cyfraniad i helpu gwaith y cartref i blant amddifad yn Shillong sydd hefyd dan ofal y Synod – beth yw eich barn chi?

*Marian Jenkins (828147)*

### *Mynwent y Garn*

Fel y gwyddoch, fe chwalwyd sied y fynwent pan gawsom storm wynt enfawr. Rydym wrthi'n trefnu i brynu sied newydd.

Tybed a oes un ohonoch chi'r ffermwyr â diddordeb yn y shitsenni sinc (*corrugated iron zinc sheets*) oedd yn rhan o'r hen sied? Ewch i'w gweld a chysylltwch ag Eddie Jones neu Bryn Lloyd yn fuan os oes gennych ddiddordeb ynddynt. Y cyntaf i'r felin a'u caiff!

Yn eisiau: Rhywun i dorri'r gwair yn y fynwent rhyw dair gwaith y flwyddyn. Manylion i'w cael gan Eddie Jones.

Hoffem ddiolch i Maldwyn Williams, Y Borth, am wneud y gwaith yn ddidrafferth am flynyddoedd lawer.

*Eddie Jones* (Goruchwyliwr y Fynwent)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 10 Mehefin i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 25 www.capelygarn.org Gwanwyn 2007



Y Parchedig Wyn Rhys Morris a Mrs Judith Morris

Dy arweiniad rho inni — O Dduw'r oes
Yn ddewr i addoli
Yn llaw dy was, llywia Di
Ein henaid i'r goleuni.

*Vernon Jones*

*Gyda chyhoeddi'r rhifyn hwn o 'Gair o'r Garn' yr ydym yn croesawu'n gynnes iawn atom y Parchedig Wyn Rhys Morris a'i briod Mrs Judith Morris. Dymunwn iddynt bob bendith yn eu gweinidogaeth yn yr ardal. Diolch yn arbennig i'n Gweinidog newydd am fod mor barod i ateb cwestiynau'r golygydd.*

**A fyddech cystal â rhoi ychydig o hanes eich cefndir i ni?**

Brodor o Fancycapel, ger Caerfyrddin. Ganwyd Rhagfyr 1951. Derbyniais fy addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Idole ac Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Caerfyrddin, cyn symud i Goleg Bangor i astudio Cymraeg a Hanes Cymru. Yna, ar ôl graddio, dilynais gwrs Tystysgrif mewn Addysg ym Mangor a bûm wedyn yn dysgu am rai blynyddoedd yn ysgolion uwchradd Castell-newydd Emlyn a Hendy-gwyn. Fe'm penodwyd yn athro ymgynghorol gydag Awdurdod Addysg Dyfed yn 1985 a chael cyfle i gynhyrchu deunyddiau a gwerslyfrau i blant ar agweddau yn ymwneud â hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru. Rhwng 1989 ac 1996 bûm yn gweithio fel Cynorthwyydd Proffesiynol yn Adran Addysg y Cyngor Sir. Yna, wedi dilyn cwrs mewn diwinyddiaeth yn y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth, derbyniais alwad i weinidogaethu ar eglwysi gofalaeth Dosbarth Llanfynydd yn Henaduriaeth Gogledd Myrddin ac yno y bûm yn bugeilio am yr wyth mlynedd a hanner diwethaf.

**Beth oedd y cymhelliad i adael swydd yn y byd addysg a'ch cyflwyno eich hun i'r weinidogaeth?**

Yr oedd cyflwyno fy hun i'r weinidogaeth yn gam naturiol i'w gymryd gan fy mod ers rhai blynyddoedd wedi bod yn flaenor yn fy nghapel (Bancycapel) ac yn bregethwr lleyg yn Henaduriaeth De Myrddin. Bu fy mhriod Judith yn gefn mawr imi yn ystod y cyfnod hwnnw pan oeddwn yn 'gwingo yn erbyn y symbylau' ac yn ceisio darganfod ewyllys Duw ar fy nghyfer. Yr wyf yn argyhoeddedig na allwn fod wedi cyflawni'r 'barchus, arswydus swydd' yn nyddiau fy ieuenctid! Gwn fod y profiadau amrywiol a gefais fel addysgwr a gweinyddwr yn gaffaeliad mawr i mi yn y weinidogaeth erbyn hyn.

***Yr Argyfwng Gwacter Ystyr***

Tra oeddwn yn arwain taith yn yr hen ardal yng ngwlad Llŷn, bu raid i mi egluro ystyr y gair 'tyndir' ar ôl ei ddefnyddio wrth gyfeirio at dir glas heb ei aredig ers tro, gair sydd yn gyfystyr â 'gwndwn' yng Ngheredigion. Ymhen ychydig, daethom i olwg y Bragdy, Dinas, cartref teulu'r Athro J R Jones a Mrs Mary Beynon Davies, cyn iddynt symud i Stryd Penlan, Pwllheli, lle gwelir cofeb erbyn heddiw i 'J R Jones, Athronydd'. Cofiais, wrth gyfeirio at ei yrfa, am y bennod yn ei lyfr olaf, *Ac Onide* – 'ei destament', chwedl Saunders Lewis – sydd yn dwyn y teitl 'Braenaru Tyndir Uniongrededd'. Yn ôl Saunders Lewis eto, mae'r 'gyfrol yn ddyddlyfr enaid mawr ac arwrol ac angerddol fyw, yn traddodi ei dystiolaeth am fywyd ac yntau wyneb yn wyneb â'i dranc'. Ymddangosodd y llyfryn 'Yr Argyfwng Gwacter Ystyr' yn 1964, chwe blynedd cyn cyhoeddi *Ac Onide*, ond, gan iddo ei gynnwys yn llawn yn nechrau'r llyfr, gellir bod yn sicr nad oedd yr awdur wedi newid ei feddwl erbyn 1970.

Yn dilyn cyfarfodydd o ddosbarth Pen-y-garn un gaeaf, o dan nawdd *hen* Adran Allanol y Brifysgol, y mae fy nyled gymaint iddi, gwahoddwyd Alwyn D. Rees, y Cyfarwyddwr, i roddi darlith i gloi'r tymor. Gwnaeth hynny ar y mythau, a chredaf iddo honni bod myth yn mynegi hanes ysbrydol dyn, er ein bod ni yn y Gorllewin wedi ein cyflyru i feddwl nad oes wirionedd a saif uwchlaw ffeithiau hanes a gwyddoniaeth. Yng nghrefyddau'r Dwyrain y mae myth yn bwysig, onid yn hanfodol, nid fel stori i ddifyrru'r amser, ond fel ffynhonnell ystyr bywyd, a phan anghofir hi datgymala'r gymdeithas. Gellir dweud fod myth yn gyfystyr ag ystyr, ac i fenthyg gosodiad J R Jones, y mae i fyth 'ystyr sy'n gyfystyr â dirgelwch'. Yn ôl Dewi Phillips, yr oedd Alwyn Rees a J R Jones yn gytûn mai'r unig obaith i grefydd oedd ail-ddarganfod ei chymeriad mythaidd. Y trafferth mawr yw bod byd o wahaniaeth rhwng diwylliant lle cymerir y myth yn ganiataol a'r un o'n heiddo ni, sydd yn ei drafod yn ymwybodol. Credaf fod doethineb mawr tu ôl i eiriau Bacon, 'Gadawer i'r meddwl ymestyn, yn ôl ei gyraeddiadau, hyd at fawredd y dirgelion, a pheidied â darostwng y dirgelion i fesur y meddwl!'

*Gwyn Jones*

## *Jwdas*

*Cynhyrchiad Cwmni Broydd Tywi, yn Theatr Felin-fach, Nos Iau, Mawrth 15fed, 2007*

Llond llwyfan o berfformwyr o bob oed mewn gwisgoedd lliwgar plaen, yn symud yn osgeiddig i fiwsig dawns ddwyreiniol – dyna oedd y wledd a gafodd y llygad pan gododd llenni theatr Felin-fach. Nid dim ond y llwyfan oedd yn llawn – roedd pob sedd wedi'i chymryd yn y neuadd hefyd.

Am ddwy awr a hanner cawsom hanes bywyd Iesu Grist, a Jwdas, ar lafar ac ar gân, yn estyn o broffwydoliaeth Eseia hyd at yr Atgyfodiad. Roedd yr ynganu, y canu a'r symud yn osgeiddig a mirain, a'r llwyfannu'n gelfydd a thrawiadol gydol y perfformiad. Hyfryd oedd clywed iaith gadarn sir Gâr ar wefusau'r plant a'r oedolion. Amheuthun hefyd oedd cael y caneuon o *Feseia* Handel yn gymysg ag emynau'r plant a cherddoriaeth fwy traddodiadol, a'r cyfan yn cael eu canu'n ddisgybledig mewn lleisiau coeth.

Y perfformiadau unigol sy'n aros yn y cof yw Miriam (Megan Haf Morgans) – seren fach yn wir, Iesu'r Plentyn (Guto Ifan) – seren arall, Jwdas (Mansel Thomas), Salome (Undeg Evans), ac Iesu Grist ei hun, a gafodd ei chwarae'n urddasol a diymhongar gan ein darpar weinidog, Wyn Morris. Mae'r Phariseaid yn haeddu clod hefyd, – o'r diwedd mae gen i lun ohonyn nhw yn fy meddwl.

Roedd y perfformiad yn fwynhad pur, yn dod i uchafbwynt yng ngolygfa sensitif a buddugoliaethus yr Atgyfodiad. Llongyfarchiadau i bawb fu wrthi'n ysgrifennu, cynllunio, dylunio, cynhyrchu, cyfarwyddo, hyfforddi a pherfformio.

Ond beth am y dehongliad o Jwdas? Oedd e'n argyhoeddi? Sut cafodd y crwt bach a'r dyn anrhydeddus ei ddenu mor hawdd i fradychu ei ffrind a'i arweinydd, yr Iesu? Un peth oedd ei barodrwydd i dderbyn y ddadl y byddai, drwy hynny, yn sicrhau bod proffwydoliaeth Eseia'n cael ei chyflawni. Peth arall oedd ei barodrwydd i dderbyn y cwdyn arian – mewn golygfa eithriadol o bwerus gyda llaw. Welson ni fawr o gyfyng-gyngor na phenbleth.

Y cwestiwn yw: A oedd Jwdas wedi ei rag-ethol i gyflawni'r broffwydoliaeth, neu ai dyn llwgr oedd e?

Atebion i'r golygydd os gwelwch chi'n dda!

*Llinos Dafis*
*16:03:07*

**Beth yw eich gobeithion ar gyfer eglwysi'r ofalaeth?**

Yn ystod fy nghyfnod fel gweinidog ar ofalaeth Dosbarth Llanfynydd, rhoddais bwys mawr ar ddod â'r gwahanol eglwysi at ei gilydd i gyd-addoli ac astudio'r Gair. Gall eglwysi, yn arbennig eglwysi bychain, deimlo'n ynsysig iawn ar brydiau, a rhaid iddynt wrth y sicrwydd eu bod yn aelodau gwerthfawr o deulu estynedig Duw. Angen mawr yr Eglwys Lân Gatholig heddiw yw cael yr aelodau i gydweithio. Gallwch ddeall felly pam fy mod yn eciwmenydd mawr. Yn naturiol, yr wyf yn gobeithio gweld yr eglwysi yn fy ngofalaeth newydd yn tyfu a datblygu, ond gwn o brofiad nad mater hawdd yw denu pobl a theuluoedd ifainc i fynychu'r cyfarfodydd ar y Sul ac i ganfod gwerth yn yr eglwys. Am hynny, byddaf yn ceisio gwneud fy ngorau i fynd â'r Efengyl allan i galon cymdeithas.

**Beth yn eich barn chi yw'r pethau pwysicaf mewn eglwys y dyddiau hyn?**

Heb unrhyw amheuaeth, y gymdeithas o'i mewn. Dyma oedd un o nodweddion amlycaf yr Eglwys Fore, fel y'i darlunnir hi yn Llyfr yr Actau. Yr oedd yno gymdeithas addolgar, lawen a didwyll, gyda'r aelodau yn ymgynnull bob dydd i addoli a gweddïo yn y deml, neu yn eu cartrefi. Rwy'n hollol argyhoeddedig fod angen datblygu'r math yma o gymdeithas yn ein heglwysi ni heddiw.

Dyna braf fyddai gweld rhieni ifainc dyweder, chwech neu wyth efallai, yn dod ynghyd yn fisol i gymdeithasu fin nos mewn ysbryd Cristnogol yng nghartrefi'i gilydd. Mae'n bwysig hefyd bod bywiogrwydd a ffresni yn nodweddu'r addoliad cyhoeddus, fel y meithrinir ysbryd hapus a disgwylgar ymhlith yr aelodau. Yn naturiol, y mae'n rhaid i unrhyw eglwys fod yn unol, gyda'r aelodau yn teimlo cyfrifoldeb i ofalu am ei gilydd. Yn ei esboniad ar Lyfr yr Actau, y mae William Barclay yn sôn am yr arweinydd morwrol Horatio Nelson yn egluro pam y bu iddo ennill un o'i frwydrau: '*I had the happiness to command a band of brothers.*' Oes, y mae'n rhaid wrth frawdgarwch a chwaergarwch, beth bynnag fydd y gorchwyl.

**Mewn datblygiad arloesol a chyffrous, bydd Mrs Judith Morris hefyd yn gweinidogaethu yn eglwysi'r Bedyddwyr yn Aberystwyth a Phenrhyn-coch, gan roi cyfle newydd am gydweithio rhwng yr enwadau. Sut ydych chi'n gobeithio datblygu'r cydweithio hwn?**

Mi wn nad Judith a minnau yw'r pâr priod cyntaf i weinidogaethu ar eglwysi o wahanol enwadau yng Nghymru, ond yn sicr y mae hyn yn ddatblygiad cyffrous i'r ddau ohonom. Gallwn rannu llawenydd a gofid ein cenhadaeth. Gobeithio'n wir nad awn ni ar nerfau ein gilydd ond, o leiaf, fe fydd gennym y gath i weithredu fel canolwr! Ond i ddifrifoli, ar lefel ymarferol yr ydym yn gobeithio cyfnewid pulpudau ambell Sul, cyd-arwain dosbarthiadau Beiblaidd a chyd-fugeilio. Gwyddom fod yna dipyn o gydweithio yn bodoli eisoes rhwng eglwysi'r ardal ac yr ydym am weld hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach.

**Rydych newydd ddod yn ôl o daith i Fryniau Casia yng ngogledd-ddwyrain India. Soniwch am yr uchafbwyntiau.**

Anodd iawn yw mynegi mewn ychydig eiriau yr hyn a argraffwyd ar ein calonnau gan ein hymweliad â'r India. Yn sicr, yr oedd pregethu o flaen 10,000 o bobl yn yr awyr agored ar brynhawn Sul yn Shillong yn brofiad a erys fyth yn y cof. Felly hefyd ein hymweliadau â'r canolfannau pwysig hynny yn hanes y genhadaeth ar Fryniau Casia. Yn ogystal â'r croeso tywysogaidd a dderbyniasom, yr hyn a'n trawodd yn fwy na dim yn ystod ein hymweliad oedd awydd a brwdfrydedd y bobl, yn arbennig y bobl ifainc mewn perthynas â'r Efengyl; a hwythau yng nghanol diwygiad, yr oeddent ar dân dros Grist. Diddorol oedd canfod hefyd eu bod yn awyddus iawn i wybod mwy am Gymru, am ei hanes crefyddol, ei threftadaeth a'i diwylliant. Ni allaf bwysleisio'n ddigonol pa mor ddyledus ydynt i'r fam-eglwys yng Nghymru am anfon yr holl genhadon i'w gwlad yn y gorffennol, ac am roddi iddynt yr Efengyl, ynghyd â'r Beibl yn eu hiaith eu hunain. Yr wyf yn mawr obeithio y gallwn fel Cyfundeb gryfhau ein cysylltiadau â'r eglwys ar Fryniau Casia drwy drefnu ymweliadau rhwng pobl ifainc y ddwy eglwys ac yn ogystal drwy anfon llyfrau a deunydd addysgiadol ar hanes crefyddol a diwylliannol Cymru at y plant a'r ieuenctid yn yr ysgolion yno. Byddwch yn siŵr o glywed rhagor am y daith i'r India.

## Mehefin

| | |
|---|---|
| **3** | Bugail<br>Parchedig Nicholas Bee |
| 8 | Te Bethlehem, Llandre am 6.30 o'r gloch |
| **10** | Walford L. Gealy |
| 16 | Henaduriaeth Gogledd Aberteifi<br>Capel y Morfa, am 2.30 a 6 o'r gloch |
| **17** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| **24** | Bugail<br>Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre |

*Gweddi am ras i dyfu mewn cariad*

Diolchwn i ti, Arglwydd,
am i ti ein dysgu yn dy Air mai Duw cariad wyt ti,
ac mai'r ffordd orau i gyd yw ffordd cariad.
Cynorthwya ni i dyfu yng nghariad Crist,
i garu'n gilydd,
i faddau i'n gelynion,
ac i gydymddwyn â phawb,
ac y bydd eraill trwom ni yn dy adnabod di,
hanfod a ffynhonnell pob cariad.

*Amen*

(*Hwn yw'r Dydd*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts, t. 133)

## *Chwiorydd y Garn*

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i nodi Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd ar yr 2il o Fawrth eleni yng Nghapel y Garn, a chafwyd cwmni aelodau o Gapel Noddfa ac Eglwys Llandre. Rhoddwyd yr anerchiad gan Llinos Dafis, y Garn. Lluniwyd y gwasanaeth eleni gan wragedd eglwysi Paraguay, De America. Diolch i bawb a gymerodd ran.

Croesawn Gyfarfod Blynyddol Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Gogledd Aberteifi brynhawn Sadwrn, 21ain Ebrill, yn y Garn am 2.30 p.m. a hynny yng ngofal chwiorydd Pen-llwyn. Y siaradwr gwadd fydd Mr Aneurin Owen, Llansannan, ac fe fydd yn dweud hanes ei ymweliad ag India. Gofynnir am gefnogaeth ein haelodau.

Cynhelir Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y De eleni yng Nghaerdydd ar ddydd Mercher, 16eg Mai.

## *Pam Mynd i'r Capel?*

Ysgrifennodd capelwr selog lythyr at olygydd papur newydd yn achwyn nad oedd yn gwneud synnwyr i fynd i'r capel bob Sul.

'Rwyf fi wedi bod yn mynd ers 30 mlynedd yn awr,' meddai, 'ac yn ystod yr amser hwn rwyf wedi clywed tua 3,000 o bregethau. Ond, yn fy myw, ni allaf gofio yr un ohonynt. Felly, credaf fy mod yn gwastraffu fy amser a bod y pregethwyr yn gwastraffu eu hamser hwythau yn rhoi'r pregethau o gwbl.'

Cychwynnodd hyn ymryson go iawn yn yr adran 'Llythyrau at y Golygydd', er mawr fwynhad i'r golygydd.

Aeth y drafodaeth ymlaen am wythnosau, hyd nes i rywun ysgrifennu'r llythyr yma: 'Rwyf wedi bod yn briod ers 30 mlynedd yn awr. Yn ystod yr amser yna mae fy ngwraig wedi coginio tua 32,000 o brydau bwyd. Ond, yn fy myw, ni allaf gofio'r fwydlen gyfan ar gyfer unrhyw un o'r prydau hynny. Ond gwn hyn – fe wnaeth pob un ohonynt fy maethu a rhoi'r nerth angenrheidiol i mi i wneud fy ngwaith. Pe na bai fy ngwraig wedi coginio'r prydau yna i mi, byddwn yn gorfforol farw erbyn heddiw. Felly hefyd, pe na bawn wedi mynd i'r capel i dderbyn maeth, byddwn yn ysbrydol farw heddiw.'

**Beth yw eich hoff adnod a'ch hoff emyn?**

'Duw, cariad yw' (1 Ioan 4:16). Fe all y gwirionedd hwn fod o gysur mawr mewn byd sydd mor ddi-dostur ac amhersonol; ac am mai Duw cariadlawn ydyw ein Duw, y mae E'n siŵr o fod yn gwerthfawrogi'r pethau gorau a wnawn – ein hymdrechion, ein gofal am eraill a'n perthynas â'n gilydd.

Fy hoff emyn? Nid oes angen petruso! Yn ôl yr Athro Syr John Morris-Jones, dyma'r delyneg berffeithiaf yn yr iaith Gymraeg. Ie, emyn mwyaf Pantycelyn, 'Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar', ar y dôn 'Tyddewi'.

**Wnaethoch chi fwynhau cymryd rhan yn y pasiant 'Jwdas' gan Nan Lewis?**


Do, bu'n brofiad amheuthun. Yr oedd yn gyfle i aelodau o ddwy ofalaeth wahanol ddod i adnabod ei gilydd yn well ac i gymdeithasu fel cyd-Gristnogion. Ond, yn fwy na dim, yr oedd y pasiant yn gyfrwng i gyflwyno neges yr Efengyl i gynulleidfaoedd niferus ac ehangach.

**Sut fyddwch chi'n hoffi treulio eich amser hamdden?**

Yr wyf yn mwynhau chwaraeon o bob math, yn arbennig pêl-droed. Byddaf yn mynd yn rheolaidd i weld Cymru yn chwarae eu gêmau cartref yng Nghaerdydd. Caiff Judith a minnau bleser mawr o gerdded y mynyddoedd yn ystod gwyliau'r haf a'n hoff gyrchfan yw pentref Zermatt, sy'n nythu yng nghesail mynyddoedd yr Alpau yn y Swistir. Ond ni lwyddodd yr un ohonom i ddringo'r *Matterhorn* eto!

**Beth yw eich neges i aelodau eglwysi'r ofalaeth ar ddechrau eich gweinidogaeth?**

Beth am eiriau'r Apostol Paul wrth aelodau'r eglwys yn Rhufain? 'Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel brawdoliaeth. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch. Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd' (Rhufeiniaid 12: 9–11).




Dyma atgofion pum aelod o Gapel y Garn o'r cyfnod tywyll a heriol hwnnw rhwng 1939 a 1945 wedi eu cyhoeddi mewn cyfrol fechan. Mae amrywiaeth y profiadau a bywiogrwydd y dweud yn rhoi cip ar weithgareddau a sefyllfaoedd diddorol a dieithr yn Llundain, Avonmouth, Penrhyn Gŵyr, Ynys Tiree a La Paz. Bydd eu darllen yn dihuno atgofion i rai efallai, ac yn sicr yn peri syndod ac yn creu chwilfrydedd am gael gwybod rhagor!

Diolch i Nest Davies, Marjorie Hughes, Eirlys Owen, Morfudd Rhys Clark a Trefor Lewis am rannu eu hatgofion â ni. Mae'r gyfrol ar werth am £3.

**Mai**

2 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, am 7 o'r gloch

**6** Parch Tudor Davies
Parch Nicholas Bee

9 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, am 7 o'r gloch

**13** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont
Oedfa deuluol am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch

**20** *Sul Cymorth Cristnogol*
Oedfa unedig i'r holl ofalaeth ac aelodau Eglwys Noddfa am **10.30 o'r gloch** dan arweiniad y Bugail

Cinio Bara a Chaws yn dilyn oedfa'r bore

23 Henaduriaeth Gogledd Aberteifi
Oedfa gymun a choffâd yng Nghapel Carmel, Llanilar, am 7 o'r gloch

**27** *Sul y Pentecost*
Bugail – cymun yn oedfa'r bore



### . *Grŵp Help Llaw*



Mae tri mis cyntaf y flwyddyn newydd wedi gwibio heibio. Derbyniwyd pentyrrau o hen gardiau Nadolig er budd Coed Cadw, a thros bedair mil ar ddeg o stampiau er budd OXFAM.

Trefnodd Shân ddau drip pleserus i ni: un i'r Wildfowler i fwynhau pryd canol-dydd yng nghwmni ein gilydd a'r ail i Ganolfan y Celfyddydau i weld y ffilm *Miss Potter*, sydd wedi ei seilio ar fywyd yr awdures Beatrix Potter.

Prif waith y tymor oedd paratoi ar chasglu nwyddau i fynd i Gwfaint Pastuva yn Lithuania. Bydd y Chwiorydd yno yn eu dosbarthu i blant anghenus o gwmpas y cwfaint. Diolch i Bil a Gwenda am fynd â llond car i Ddolgellau – cam cyntaf y daith hir i Lithuania.

Bore Sadwrn, 31 Mawrth, bydd y festri ar agor i dderbyn 'Cymorth i Bosnia'. Yn ôl ein harfer, byddwn yn gwahodd eglwysi'r ofalaeth a'r gymuned i uno gyda ni yn yr ymdrech flynyddol yma.

Ym mis Ebrill byddwn yn cynorthwyo yn nes adref, trwy brynu offer clyw arbennig – 'The Hearit' – i Ward Enlli, Ysbyty Bronglais.

Mae gyda ni silff lyfrau ail-law yn y festri. Diolch i'r rhai sy'n cyfrannu llyfrau ac yn eu prynu.

Diolch am bob cefnogaeth i waith y Grŵp Help Llaw. Mae'r cyfan yn cael ei wneud yn enw Capel y Garn.

### *Apêl Sierra Leone 2007*

Fel y gwyddoch, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cynnal apêl arbennig bob pum mlynedd i godi arian i helpu rhai o wledydd tlotaf y byd. Eleni, mae'r Cyfundeb wedi penderfynu canolbwyntio ar Sierra Leone, gwlad ar arfordir gorllewinol Affrica.

Hanner hyd oes pobl Cymru yw hyd oes pobl Sierra Leone, ac mae babanod 30 gwaith yn fwy tebygol o farw yno cyn bod yn flwydd oed nag ydynt yng Nghymru.

Yn sgil rhyfel cartref treisgar yn ystod yn 1990au, lladdwyd dros 50,000 o bobl Sierra Leone; crewyd haner miliwn o ffoaduriaid, a bu'n rhaid i hanner y boblogaeth o 45 miliwn adael eu cartrefi. Daeth y rhyfel cartref i ben ym mis Ionawr 2002 a chynhaliwyd seremoni symbolaidd pryd y llosgwyd yr arfau.

Y nod ydy codi **£10 yr aelod** – sy'n gyfystyr â phrynu stamp ail ddosbarth bob wythnos yn ystod 2007. Bydd y £10 hwnnw yn gwneud gwahaniaeth enfawr ym mywydau pobl Sierra Leone, sy'n parhau i ddioddef effeithiau y Rhyfel Cartref ac yn ceisio ail-adeiladu eu bywydau

Gyda'r rhifyn hwn o 'Gair o'r Garn' fe gewch daflen yn rhoi cefndir yr apêl, ynghyd ag amlen ar gyfer eich cyfraniad.

Felly, a fyddech mor garedig â rhoi eich cyfraniad yn yr amlen a'i dychwelyd i un o swyddogion yr Eglwys erbyn **22ain Ebrill**, os gwelwch yn dda? Er mwyn gwneud y gorau o'ch rhodd, cofiwch arwyddo'r rhan Cymorth Rhoddion (*Gift Aid*) y tu allan i'r amlen.

## ‘***OS MÊTS*** …’

## Clwb Ieuenctid Cristnogol Gogledd Ceredigion

Mae’n siwr eich bod eisoes yn ymwybodol o’r bwriad i sefydlu gweithgaredd ieuenctid cydenwadol yn y fro hon. Troir y bwriad yn weithred drwy arweiniad a gweithgaredd Glyn Saunders Jones i lunio rhaglen ddiddorol ac amrywiol ar gyfer y grŵp ‘**Os Mêts** … ’

Mae’r rhaglen wedi ei threfnu hyd at ddiwedd mis Mai ar gyfer ieuenctid oedran Blynyddoedd Ysgol 7 i 11, a bydd y clwb yn cwrdd fel arfer ar nos Fercher.

Cynhaliwyd y noson agoriadol nos Wener, 16 Mawrth, pan aeth tuag ugain o ieuenctid ar ymweliad â’r theatr.

Dyma weddill yr arlwy:

| | |
|---|---|
| 18 Ebrill: | Nofio a Bowlio Deg |
| 25 Ebrill: | Adloniant a gwaith theatr gyfoes gan dalentau *Theatr Ieuenctid* + |
| 16 Mai: | Pili Palas yng Nghwm Rheidol |
| 23 Mai: | Helfa Drysor a barbeciw |

Os ydych chi’n gwybod am bobl ifanc sydd heb dderbyn yr wybodaeth yma neu os ydych am gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Glyn Saunders Jones (ffoniwch 832259 neu anfonwch e-bost i’r cyfeiriad: atebol@btinternet.com).

Carem ddiolch yn ddidwyll iawn i Glyn Saunders Jones am yrru dyheadau’r Gweithgor Llywio ymlaen, a hyderir y cawn ymateb gadarnhaol gan yr ieuenctid. Pe byddai aelodau am gynnig cefnogaeth ymarferol o bryd i’w gilydd, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu â Glyn Saunders Jones neu Dewi Hughes.

## Ebrill



**1** *Sul y Blodau*
Tecwyn Jones

4 Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o’r gloch

Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yn Horeb, Penrhyn-coch am 7 o’r gloch



6 Bore’r Groglith
Oedfa gymun am 10 o’r gloch
dan arweiniad y Parchedig Wyn Morris

**8** *Sul y Pasg*
Oedfa gymun arbennig i’r holl ofalaeth am 10 o’r gloch
ar ddechrau gweinidogaeth y Parchedig Wyn Morris

Oedfa’r hwyr – cyfle i ymuno â Chyrddau Pregethu Eglwys yr Annibynwyr, Bethel, Tal-y-bont, am 6 o’r gloch, pryd y pregethir gan y Parchedig R W Jones

**15** Y Parchedig Stephen Morgan

18 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yn y Garn am 7 o’r gloch

21 Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Gogledd Aberteifi am 2.30 o’r gloch
Anerchir gan Mr Aneurin Owen, Llansannan

**22** Bugail

25 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yn y Morfa am 7 o’r gloch

**29** Y Parchedig Irfon Evans
Y Parchedig W J Edwards